## ADRODDIAD I LYWODRAETH Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

# Y STRATEGAETH SGILIAU SYLFANEOL I GYMRU

### PWYLLOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## SYLWADAU AGORIADOL

1. Diolch am wahodd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i siarad â'r Pwyllgor hwn. Rwyf yn falch bod yr Asiantaeth wedi cael y gwahoddiad i oruchwylio gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar ran Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Credaf bod y strategaeth yn un gref a llawn dychymyg ac yn unigryw hefyd gan ei bod yn mynd i'r afael â'r broblem sgiliau sylfaenol 'o'r crud i'r bedd', gan gychwyn o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedolion.

3. Does dim dwywaith bod y strategaeth yn un uchelgeisiol. Nid oes unrhyw wlad ddiwydiannol arall wedi llwyddo i ostwng nifer y bobl ifanc a'r oedolion mewn angen na datblygu agwedd holistaidd at daclo'r broblem sgiliau sylfaenol. Mae'n sialens arbennig oherwydd ei bod yn strategaeth ddwyieithog, a fydd yn help i godi safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Y STRATEGAETH SGILIAU SYLFAENOL GENEDLAETHOL

## CYFLWYNIAD

4. Rydym bellach ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y strategaeth. Cafodd ei chymeradwyo gan y Cynulliad yn 2001 a'i lawnsio gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson, yn ein Cynhadledd Flynyddol Gymreig yn Ebrill 2001. Ym Mai 2002, cyflwynwyd adroddiad Blwyddyn 1 gan y Gweinidog a bu'n destun dadl lawn gydag Aelodau'r Cynulliad.

5. Fel rhan o'n hymrwymiad i dreiglo'r strategaeth rydym wedi datblygu Cynllun Cyflwyno manwl a rhesymegol, sy'n cynnwys mentrau a gynlluniwyd i weld eu heffaith ym mhob cam. Yn y flwyddyn gyntaf, rydym wedi cychwyn ar fentrau ar bob cam, gan osod seiliau mewn rhai meysydd a chyflawni canlyniadau sylweddol mewn eraill. Rydym hefyd wedi gwneud llawer o ymdrech i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol a sefydlu yn ymwybyddiaeth y cyhoedd benderfyniad y Cynulliad i fynd i'r afael â'r broblem sgiliau.

## AMCANION TERFYNOL Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL

6. Wrth lansio'r Strategaeth Genedlaethol dywedodd Jane Davidson mai'r nod terfynol yw *'sicrhau bod gan bawb yng Nghymru y sgiliau llythrennedd a rhifedd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymryd yn ganiataol.'*

7. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar cam er mwyn cyflawni'r nod hwn.

   **Hyrwyddo'n barhaus bwysigrwydd sgiliau sylfaenol yn awr ac yn y dyfodol.**

   **Llunio cynlluniau gweithredu er mwyn gosod targedau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.**

   **Sefydlu rhaglenni effeithiol ar gyfer gwelliant.**

   **Cynnig cymwysterau llythrennedd a rhifedd newydd i bobl ifanc ac i oedolion.**

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar chwe amcan terfynol.

| | *Amcan terfynol* | *Mesuriad – 2001* |
|---|---|---|
| 1. | *Pob plentyn sy'n dechrau'r ysgol yn barod ar gyfer addysg* | Bydd llinyn mesur yn cael ei sefydlu ar sail arolwg athrawon a gynhaliwyd yn 2001 |
| 2. | *Pob disgybl 7 mlwydd oed yn cyrraedd Lefel 2 neu uwch mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg* | 82% o ddisgyblion 7 mlwydd oed wedi cyrraedd Lefel 2 neu uwch mewn Saesneg, 90% mewn Mathemateg a 87% mewn Cymraeg |
| 3. | *Pob disgybl 11 mlwydd oed yn cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg* | 78% o ddisgyblion 11 mlwydd oed wedi cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn Saesneg, 74% mewn Mathemateg a 68% mewn Cymraeg. |
| 4. | *Pob disgybl 14 mlwydd oed yn cyrraedd Lefel 5 neu uwch yn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3* | 62% o ddisgyblion 14 mlwydd oed wedi cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg, a 71% mewn Cymraeg |
| 5. | *Pob disgybl 16 mlwydd oed yn ymadael â'r ysgol yn llythrennog ac yn rhifog* | Dim ond 14% o bobl ifanc 16 mlwydd oed heb unrhyw gymwysterau |
| 6. | *Pob oedolyn yng Nghymru yn meddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ddigonol iddynt weithredu a gwneud cynnydd yn eu gwaith ac mewn cymdeithas yn gyffredinol* | 72% o oedolion â llythrennedd gweithredol a 68% â rhifedd gweithredol |

## EIN PARTNERIAID

8. Ers mis Medi 2001 rydym wedi cynnal seminarau gwybodaeth a chynadleddau ym mhob rhan o Gymru ac wedi briffio'r holl sefydliadau allweddol fel bod gwybodaeth o'r strategaeth ac yn bwysicach pwysigrwydd sgiliau sylfaenol wedi lledaenu mor eang ag y bo modd. Yn gynharach eleni cynahliom ein Cynhadledd Flynyddol i Gymru ac roedd bron i'r 700 o gynrychiolwyr a ddaeth yno, yn ymateb yn gadarnhaol i siaradwyr o rannau eraill o'r byd ar ein thema 'Dysgu gan Eraill'.

9. Rydym yn gwybod na allwn gyflwyno'r strategaeth ar ein pennau ein hunain. Rydym angen ymdrech gydlynol gan yr holl gyrff sy'n ymwneud ag addysg, gwaith, hyfforddiant a bywyd cymunedol yng Nghymru. Mae'r Grwp Llywio Strategaeth (yr ydym ni wedi ei sefydlu, sy'n gyfrifol am ein cynghori ar gyfeiriad y strategaeth) yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, AALlau, colegau, a'r sector gwirfoddol yn ogystal â sefydliadau partner allweddol yn cynnwys ACCAC, Estyn a'r Cyngor Cenedlaethol.

10. Gwyddom pa mor bwysig yw bod y strategaeth yn cefnogi cynlluniau eraill gan y Cynulliad yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â phlant, cymunedau, ieuenctid a gwaharddiad cymdeithasol, ac rydym yn ymwybodol o bryder y Cynulliad gyda phroblemau dadrithiad ieueunctid. Rydym hefyd yn sylweddoli pwysigrwydd gweithio gyda chyflogwyr, sefydliadau busnes a TUC Cymru i daclo'r mater o brinder sgiliau. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys y materion yma i gyd. Rydym yn hollol ymwybodol bod 'gweithrediad cysylltiedig' yn hanfodol i'r Cynulliad ac yn awyddus i weld bod y strategaeth yn adlewyrchu hyn.

## HYRWYDDO

11. Mae hyrwyddo wedi bod yn nodwedd bwysig o'r flwyddyn gyntaf. Byddai wedi bod yn amhosib anwybyddu'r sylw eang ar deledu, posteri, bysiau a'r wasg. Rydym yn credu bod angen y safon a'r lefel yma o sylw i roi sgiliau sylfaenol, a phwyslais y Cynulliad arnynt, ar y map.

12. O fwriad fe anelom at ymgyrch proffil uchel, uchelgeisiol yn cyflwyno delweddau cadarnhaol a gynlluniwyd i daclo'r stereoteipiau negyddol sy'n cael eu cysylltu â sgiliau sylfaenol. Yn wahanol i'r farn gyffredinol, nid yw pobl â sgiliau sylfaenol gwan yn anllythrennog; nid yw plant a phobl ifanc sy'n cael trafferth gyda sgiliau sylfaenol 'o dan anfantais'.

13. Mae mwyafrif yr oedolion â sgiliau gwan mewn swyddi ac yn wynebu'r un heriau mewn bywyd bob dydd â'r gweddill ohonom ni. Ond nid yw eu sgiliau yn ddigon da ar gyfer bywyd modern ac maen nhw'n cael eu dal yn ôl a'u cywilyddio ganddynt. Mae mwy nag 20% o oedolion yng Nghymru yn y grwp hwn; os ydynt i gael eu hannog i wneud rhywbeth i wella eu sgiliau, rhaid iddyn nhw gysylltu eu hunain â'r ymgyrchoedd i hybu sgiliau sylfaenol a gweld eu hunain a'u plant yn yr hysbysebion.

14. Efallai bod Aelodau'n cofio bod yna nid un ond chwech ymgyrch, yn edrych ar dri grwp targed yn y Gymraeg a'r Saesneg: yn gyntaf rhieni a gofalwyr drwy apêl uniongyrchol 'os darlleni di gyda fi' gan blant ifanc; yn ail, plant hyn a phobl ifanc gyda'r neges 'gall sgiliau sylfaenol fod yn hwyl'; ac yn olaf, oedolion gyda thema ysgafn, hwyliog 'pan oeddwn i'n ifanc' oedd yn rhoi darlun cadarnhaol. Roedd rhif LearnDirect ar yr hysbyseb oedolion. Roedd pob ymgyrch yn defnyddio teledu, radio lleol, y wasg genedlaethol a lleol, a phosteri ymhob man ac i gefnogi'r ymgyrch cafodd deunydd printiedig a fideos eu dosbarthu am ddim i ysgolion a cholegau.

15. Er mwyn cefnogi'r ymgyrchoedd ar lefel leol, rhyddhaom gyllid i sefydliadau ôl-16 i'w helpu i ehangu'r ymgyrch genedlaethol a delio â chyfeiriadau, er mai pwrpas Cam 1 yn bennaf oedd codi ymwybyddiaeth a newid syniadau, yn hytrach na recriwtio dysgwyr posibl. Er hynny, cafwyd 722 o alwadau i LearnDirect a 328 o geisiadau uniongyrchol i golegau.

16. Mae effaith pob ymgyrch wedi eu gwerthuso'n ffurfiol gan Ymchwil y Farchnad Cymru. Mae canlyniadau'n dangos bod:

- 73% o blant yn cofio'r hysbyseb 'Darllen gyda Fi';
- 73% o rieni yn cytuno bod yr hysbysebion yn 'gwneud i mi feddwl am bwysigrwydd sgiliau sylfaenol yn fy nheulu';
- 7 o bob 10 rhiant yn teimlo bod yr ymgyrch ' yn gwneud i mi sylweddoli pa mor bwysig yw cymryd rhan yn addysg fy mhlentyn';
- 75% o'r oedolion a holwyd yn teimlo bod yr hysbysebion wedi gwneud datganiad positif am sgiliau sylfaenol.

17. Rydym hefyd wedi cael adborth a straeon gan athrawon am ymatebion brwdfrydig gan blant a rhieni. Roedd athrawon yn gweld gwerth yr ymgyrch gyfryngau safon uchel gan ei bod yn ategu eu hymdrechion i ddysgu a chefnogi sgiliau sylfaneol. Rydym hefyd wedi cael ymateb cadarnhaol gan diwtoriaid oedolion sy'n sôn am ddiddordeb newydd mewn dysgu gan rai oedolion yn ogystal â'r dysgwyr presennol sy'n dangos mwy o ddiddordeb mewn darllen i'w plant.

18. Rydym ar fin dechrau Rhan 2 o'n hymgyrch hyrwyddo pan fydd ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol yn cael ei droi'n weithredu. Er mwyn cefnogi set newydd o hysbysebion, wedi eu seilio ar y cyntaf, byddwn yn cynhyrchu defnyddiau i rieni ar 'helpu'ch plentyn' ac rydym yn edrych ar ddichonoldeb cynhyrchu deunydd hunan-asesu i oedolion eu defnyddio adref. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond canran fach o'r rheiny sydd angen sy'n mynd ar gwrs sgiliau sylfaenol. Felly rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i ddenu oedolion drwy ddeunyddiau a phecynnau dysgu arloesol o safon uchel.

## CYNLLUNIO STRATEGOL

19. Nodwedd amlwg o'r strategaeth oedd i ba raddau y mae wedi'n galluogi i ddylanwadu ar gynllunio strategol sefydliadau allweddol, a fydd yn ein helpu ni i gwrdd â'r targedau strategol. Sefydlwyd cysylltiadau arbennig o gryf gyda'r AALlau a'r cyrff sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar.

20. Yn y flwyddyn sy'n dod byddwn yn cryfhau cysylltiadau gyda'r CCETS gyda golwg ar ddylanwadu ar y cynlluniau strategol i addysg a hyffordiant ôl-16 yn yr un ar hugain o ardaloedd CCET. Gobeithiwn y bydd y dull hwn yn cynnig y cyfle gorau i gael gweithgaredd gynaladwy, a sicrhau integreiddio gweithgarwch sgiliau sylfaenol gyda'r ystod eang o fentrau Cynulliad eraill.

21. Er mwyn cefnogi cynllunio strategol rydym wedi rhoi swyddog enwebiedig ymhob ardal fel y gall pob AALl, coleg, CCET a mudiad cymunedol gysylltu'n uniongyrchol â'u swyddog cyswllt.

## BLYNYDDOEDD CYNNAR

22. Y gwaith yn y sector blynyddoedd cynnar yw craidd y strategaeth. Os yw plant yn dechrau'r ysgol heb y sgiliau sydd angen arnyn nhw i gael cychwyn da yn yr ysgol, maent yn debygol o brofi anawsterau. Hyd yn oed cyn i blant ddechrau'r ysgol rhaid i ni gynnwys plant a rhieni a chael effaith ar eu potensial i wneud y mwyaf o addysg.

23. Mae'r strategaeth yn gosod nod uchelgeisiol, sef 'na ddylai'r un plentyn ddechrau'r ysgol heb fod yn barod i ddysgu'. Er mwyn rhoi sylfaen i'r gwaith hwn i ni, comisiynwyd Ymchwil Beaufort, Caerdydd i gynnal arolwg ar pa mor barod yw plant ar gyfer yr ysgol. Anfonwyd holiaduron i bob ysgol yng Nghymru gyda blynyddoedd cynnar yn gofyn i athrawon am eu canfyddiadau o barodrwydd plant i ddysgu drwy feddwl am eu gallu i wrando, cyfathrebu, holi ayb.

24. Canfyddiadau athrawon oedd bod y rhan fwyaf o blant, tua tri-chwarter ohonynt, yn gallu siarad o'u rhan eu hunain gydag eraill a chymryd rhan mewn chwarae ond llai o blant oedd yn gallu gwrando gyda diddordeb, holi cwestiynau a chwarae gyda chydweithrediad. Dywedwyd bod llai na thraean y plant yn gallu adrodd rhigymau neu ganu caneuon a dim ond chwarter oedd yn gallu dweud y rhifau mewn trefn neu adnabod eu henw eu hunain. Pan ofynnwyd i'r athrawon gymharu'r sefyllfa dros y 5 mlynedd cynt, roedd mwy o athrawon yn credu bod pethau wedi gwaethygu yn hytrach na gwella. Credwyd bod y dirywiad mwyaf sylweddol mewn siarad a gwrando.

25. Mewn ysgolion lle roedd mwy na hanner y plant yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, roedd hi'n ymddangos bod plant yn dechrau'r ysgol gyda gwell sgiliau darllen, ysgrifennu a chyfrif cynnar na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd mwy yn dewis edrych ar lyfrau; roedd mwy yn gallu nabod eu henw. Roedd eu sgiliau gwrando yn well hefyd. Fodd bynnag, nid oedd eu sgiliau siarad - siarad ag eraill, gofyn cwestiynau ayb, wedi datblygu cystal ac nid oeddent mor barod i fynd i chwarae.

26. Mae'n rhaid i ni bwysleisio nad oedd yr arolwg yn cynnwys unrhyw asesiad gwrthrychol o sgiliau plant. Roedd yn canolbwyntio ar canfyddiadau athrawon o'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa yn y gorffennol ac felly rhaid ei drin yn ofalus. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r canfyddiadau ac o sylwadau athrawon am yr hyn sydd angen i wella'r sefyllfa, bod angen rhaglenni ar gyfer rhieni a phlant yn y cymau cynharaf.

27. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd a phlant ifanc ac rydym wedi datblygu ac arbrofi gyda rhaglen hyfforddi staff blynyddoedd cynnar, a rhaglen i rieni o'r enw 'Iaith a Chwarae'. Rydym am sicrhau bod pob gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd, staff grwpiau chwarae a gofalwyr, yn ymwybodol o faterion sgiliau sylfaenol ac yn gallu cynghori rhieni ar sut i helpu eu babanod i ddatblygu eu sgiliau iaith a chyn-llythrennedd cynnar mewn ffordd naturiol a hawdd i'r teulu.

28. O hydref 2002 ymlaen, byddwn yn treiglo'r rhaglenni yma ym mhob awdurdod lleol ac yn gwneud yn siwr bod rhaglenni 'Iaith a Chwarae' ar gael i rieni ym mhob rhan o Gymru. Cyn bo hir bydd cyllid ar gael i AALlau gyfrannu at gost staff i gydlynu rhaglenni Iaith a Chwarae a threfnu cyflwyno'r hyfforddiant.

29. Rydym hefyd yn bwraidu cynnal cynhadledd genedlaethol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan gyda'r blynyddoedd cynnar i helpu i osod sylfaen gadarn i'n strategaeth blynyddoedd cynnar. Byddwn yn defnyddio'r achlysur hwn i lawnsio CD a llyfr o ganeuon a rhigymau Cymraeg a Saesneg yr ydym wedi eu cynhyrchu, a fydd ar gael am ddim i rieni plant 0-3 oed. Y nod fydd annog rhyngweithio rhwng oedolyn a phlentyn.

## YSGOLION

### ALLAU

30. Mae'r strategaeth sgiliau sylfaenol i ysgolion wedi hen gychwyn. Mae rhaglen o Grantiau Ymyrraeth Strategol i AALlau, yn mynd o £60,000 i £120,000, wedi helpu i gryfhau agweddau at sgiliau sylfaenol. Wedi eu seilio ar ddadansoddiad o ddata lleol, mae AALlau wedi gwneud cynigion i ehangu eu gwaith mewn meysydd arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglenni dal-i-fyny a pontio llythrennedd/rhifedd ym mhob Cam Allweddol;
- Mentrau Cam Allweddol 4 gydag ieuenctid dadrithiedig;
- Rhaglenni y tu allan i'r ysgol i annog ffyrdd newydd o weithio a bywiogi'r cwricwlwm;
- Mesurau i rannu ymarfer da ar draws ysgolion.

31. Byddwn yn gwerthuso'r gweithgareddau hyn ac yn sefydlu rhaglen ledaenu i wneud yn siwr bod y budd mwyaf yn cael ei wneud o ymarfer da wrth iddo ymddangos.

### YSGOLION UWCHRADD

32. Yng ngham nesaf y strategaeth byddwn yn datblygu hyfforddiant sgiliau sylfaenol i athrawon ysgol uwchradd. Gwyddom nad yw pob athro ysgol uwchradd yn gallu delio gyda disgyblion â sgiliau sylfaneol gwan (yn enwedig os ydynt wedi arbenigo mewn hanes, daearyddiaeth neu gelf er enghraifft). Felly rydym yn bwriadu datblygu rhaglen hyfforddi a fydd yn helpu staff ysgol uwchradd i gefnogi disgyblion ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn edrych ar ddefnyddio gwirfoddolwyr mewn ysgolion a'r hyfforddiant y maen nhw angen i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion. Rydym eisoes wedi comisiynu fideo i helpu gyda recriwtio.

## Y MARCIAU SAFON

33. Mewn partneriaeth gydag AALlau rydym yn cymryd camau breision tuag at darged y Cynulliad y bydd pob ysgol yn gweithio tuag at y safonau a osodwyd gan Faricau Safon yr Asiantaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Rhoddwyd grantiau yn amrywio o £10,000 i £36,000 i AALlau i'w galluogi i gefngi ysgolion i ennill y Marc Safon. Yn barod mae 727 o ysgolion cynradd a 44 o ysgolion uwchradd wedi derbyn y dyfarniad ac mae pob AALl yng Nghymru yn cymryd rhan yn y rhaglen. Mae nifer o AALlau wedi cynnwys y Marciau Safon yn eu Cynlluniau Strategol Addysg ac fel elfin allweddol i'w rhaglen gwella ysgolion.

34. Yn didiweddar fe gomisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol gennym i gyfweld â sampl ar hap o ysgolion cynradd oedd wedi cael y Marc Safon Cynradd. Dyma oedd eu canlyniadau:

- Roedd 98% o ysgolion yn meddwl bod y Marc Safon Cynradd yn offeryn hunan-adoolygu a gwerthuso defnyddiol;
- Dywedodd 91% ei fod wedi helpu i godi ysbryd y staff;
- Byddai 99% yn argymell y dyfarniad i ysgolion eraill;
- Roedd 98% wedi cael y broses Marc Safon yn un werth chweil.

35. Roedd y canlyniadau o'r arolwg yn hynod o gadarnhaol. Comisiynwyd astudiaeth debyg gydag ysgolion uwchradd ac mae canlyniadau'r arolwg hwnnw yn adleisio'r canfyddiadau o'r arolwg cynradd.

## RHAGLENNI TEULU

36. Datblygiad pwysig arall fu ehangu rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu sy'n helpu rhieni â sgiliau sylfaenol gwan i ddatblygu'r sgiliau sydd angen arnyn nhw i helpu eu plant a allai fod mewn perygl o syrthio'n ôl. Bu hon yn rhaglen llwyddiannus iawn a oedd yn golygu partneriaethau rhwng AALlau a cholegau. Mae cyrsiau ar gael ym mhob AALl ac, mewn nifer o ardaloedd, mae gweithdai wedi sicrhau bod y rhaglenni ar gael i rieni nad ydynt yn gallu mynychu cyrsiau hir. Dyrannwyd grantiau o £26,000 i £119,000 i AALlau ar gyfer 2002-3. Mae cyllid ar gyfer addysgu'r rhieni yn cael eu ddarparu gan y Cyngor Cenedlaethol.

37. Rydym yn gweithio gydag AALlau i ddatbygu dull strategol bwriadus o gyflwyno rhaglenni teulu. Gwneir hyn fel bod partneriethau gyda darparwyr oedolion yn cael eu strwythuro'n well a bod ysgolion yn gallu gwneud rhaglenni teulu yn rhan gynaladwy o'u ymwneud â rhieni. Eleni mae dros 12,00 o oedolion a phlant wedi cymryd rhan mewn rhaglenni teulu o ryw fath ac yn bennaf o ganlyniad i'r strategaeth rydym wedi gallu sicrhau AALlau y bydd cyllid iddynt hyd at fis Mawrth 2005.

38. Yn y flwyddyn sy'n dod byddwn yn ymgynghori ar ddatblygu Marc Safon i raglenni teulu.

## OEDOLION

39. Un o'n sialensau mwyaf gydag oedolion yw sut ydym yn cymell pobl i fod eisiau gwella'u sgiliau sylfaenol. Rydym yn gwybod bod y rheiny sydd angen help yn aml yn anfoddog i ymuno â dosbarthiadau ac ychydig o gefnogaeth sydd yna i'r rheiny sy'n dymuno astudio'n annibynnol.

40. Mae'r dysgwyr hynny sydd wedi ymuno â dosbarthiadau yn cael eu dysgu'n bennaf gan athrawon sydd â'r lleiafswm o hyfforddiant ac mae yna ddibyniaeth drom ar staff ran-amser. Nid yw'r strwythur cymhwyso ar gyfer athrawon sgiliau sylfaenol wedi ei datblygu'n dda. O fewn sefydliadau, mae'r rhaglenni'n aml ar y cyrion ac mae yna ddiffyg cydlyniad rhwng rhaglenni sgiliau sylfaenol ac allweddol. Mae llawer o waith i'w wneud i gryfhau cyflwyno sgiliau sylfaenol yn y sector ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Cenedlaethol i helpu i lywio eu polisi a'u cyllid ar gyfer sgiliau sylfaenol.

## MARC SAFON ÔL-16

41. Rydym wedi cyflwyno prosiect i helpu darparwyr ôl-16 mewn colegau, sefydliadau hyfforddi, carchardai a'r sector gwirfoddol i gyrraedd y safonau sydd angen ar y Marc Safon Ôl-16. Hyd yn hyn mae 19 o raglenni wedi ennill y Marc Safon ac rydym yn disgwyl cynnydd mawr mewn ceisiadau am y dyfarniad wrth i'n Prosiect Cefnogaeth Genedlaethol (a fydd yn rhoi cyngor i sefydliadau sy'n dymuno ennill y dyfarniad) ddod yn weithredol.

## HYFFORDDI ATHRAWON

42. Athrawon cymwys da yw asgwrn cefn rhaglenni o safon. Eleni rydym wedi cychwyn rhaglen o hyfforddiant athrawon dwys ac rydym wedi hyfforddi 1000 o athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm sgiliau sylfaenol oedolion newydd, y mae'r strategaeth yn mynnu ei bod mewn grym erbyn Medi 2002. Rydym hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant i staff sy'n gweithio gydag oedolion ag anawsterau dysgu ac i'r rheiny sy'n dysgu oedolion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Bydd yr hyfforddiant yn parhau yn 2002/3. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar fframwaith o gymwysterau i athrawon yn y sector oedolion.

## PROSIECTAU CEFNOGAETH CENEDLAETHOL

43. Mae yna angen dirfawr i gynyddu arbenigedd yn y maes sgiliau sylfaenol ôl-16. Rydym wedi defnyddio'r strategaeth i sefydlu cyfres o Brosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol i roi cyngor a hybu datblygiad mewn ardaloedd lle rydym yn gwybod bod yna angen sgiliau sylfaenol. Mae sefydliadau blaenllaw yng Nghymru wedi eu dewis drwy dendr i gynnal prosiectau ar ran yr Asiantaeth i gryfhau gwaith sgiliau sylfaenol mewn colegau Addysg Bellach, mewn sefydliadau hyfforddi, ac mewn mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

44. Yn y flwyddyn sy'n dod byddwn yn gwahodd tendrau ar gyfer Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol i gryfhau gwaith gydag oedolion a phlant nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg na Saesneg - problem gymharol fach heblaw yn ardaloedd dinesig Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, ond un sy'n debygol o gynyddu, ac un fydd yn anodd ymdrin â hi pan fydd niferoedd bach wedi eu gwasgaru ledled Cymru.

45. Rydym hefyd yn cynllunio rhaglen gefnogaeth i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddadrithiedig, i wneud yn siwr eu bod yn gwybod sut i ddelio ag unrhyw broblemau sgiliau sylfaenol y gall fod gan eu cleientau.

## CYFLOGWYR

46. Mae'r rhan fwyaf o oedolion sydd â sgiliau sylfaenol gwan mewn gwaith ond wedi eu dal mewn swyddi medr isel, cyflog isel gydag ychydig o gyfleoedd hyfforddiant ac ychydig obaith o ddyrchafiad. Y nhw hefyd sy'n fwyaf tebygol o wynebu diswyddiadu gan bod eu diffyg sgiliau yn eu hatal rhag cymryd sialensau newydd a mwy o gyfrifoldeb. Rydym angen cefnogaeth cyflogwyr i fynd i'r afael â'r broblem hon ond nid yw cyflogwyr bob amser yn gweld mai eu cyfrifoldeb nhw yw annog gweithwyr i ddatblygu'r sgiliau y dylent, yn eu tyb hwy, fod wedi eu dysgu yn yr ysgol.

47. Gwraidd ein strategaeth sgiliau sylfaenol yn y gweithle yw Ernes Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol a thrwy hwn byddwn yn cefnogi cyflogwyr i wneud ymrwymiad i wella sgiliau sylfaenol eu gweithwyr. Rydym wedi sefydlu Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol i weithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i hybu sgiliau sylfaneol yn y gweithle a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflogwyr i gwrdd â gofynion yr Ernes. Yn yr hydref, gyda chefnogaeth y Cynulliad, byddwn yn lawnsio'r Ernes gyda digwyddiad i gyflogwyr.

48. Er mwyn cael llinell sylfaen i'r gwaith hwn rydym wedi comisiynu arolwg o'r gweithgaredd sgiliau sylfaneol presennol yn y gweithle. Gwnaed yr arolwg gan Newidiem, Caerdydd, gan gasglu barn mwy na 3,000 o weithwyr ledled Cymru.

49. Mae canfyddiadau o'r arolwg yn cadarnhau ein profiad mai ychydig o weithgaredd sgiliau sylfaenol sy'n digwydd yn y gweithle a bod cyflogwyr yn dal i fethu sylweddoli'n llawn faint o anhawster sgiliau sylfaenol sy'n bodoli. Nid ydynt chwaith yn sylweddoli i ba raddau y gallai hyn gael effaith ar waith eu busnes. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod nifer o gyflogwyr yn barod i 'weithio o amgylch' anawsterau sgiliau sylfaenol. Canlyniad hyn yw nad yw gweithwyr sgiliau isel yn cael eu hannog i wella'r sgiliau sylfaenol a fyddai'n rhoi mynediad iddynt i fwy o hyfforddiant a gwell cyfloedd gwaith. Maent wedi eu dal yn y 'fagl sgiliau' sy'n cyfyngu ar eu potensial nhw a photensial eu sefydliad.

50. Gwyddom bod y Cynulliad yn awyddus i weld undebau llafur yn chwarae eu rhan mewn hybu sgiliau sylfaenol. I nifer o weithwyr cynrychiolydd yr undeb fydd y ffynhonnell ddibynadwy ar hyfforddiant sgiliau sylfaenol, gan y gallent fod yn amharod i ddangos gwendidau llythrennedd a rhifedd o flaen eu cyflogwr. Eleni rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith datblygu gyda TUC Cymru i godi ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol ymhlith cynrychiolwyr dysgu undeb. Byddwn yn parhau i weithio gyda TUC Cymru.

51. Rydym wedi cynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog i gefnogi'r gwaith gyda chyflogwyr ac undebau a hefyd dwy fideo i hyrwyddo sgiliau sylfaenol gweithle; y naill i undebau llafur a'r llall i gyflogwyr. Mae'r ddwy ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## CASGLIAD

52. Mae'r strategaeth wedi cychwyn yn gadarn ond mae llawer ar ôl i'w wneud. Yng ngham nesaf y strategaeth byddwn yn atgyfnerthu ac ehangu'r gwaith ar bob cynllun; byddwn yn canfod y profion cenedlaethol a fydd yn ein galluogi i fesur y cynnydd rydym yn ei wneud tuag at ein targed ac a fydd yn rhoi elfennau Dyfarniad Tridarn Cymru i ni. Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg cenedlaethol o lythrennedd a rhifedd i fesur yr effaith ar y boblogaeth drwyddi draw. Byddwn yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau sylfaenol.